# Ble i ddod o hyd i wybodaeth am blâu a chlefydau planhigion

## TAFLEN GWYBODAETH

Mae'r nodyn hwn yn darparu trosolwg er gwybodaeth yn unig. Mae'r ddogfen yn ceisio sicrhau bod yr wybodaeth yn amserol ac yn gywir, ond ni wneir unrhyw honiadau na gwarantau ynglŷn â chywirdeb, cyflawnrwydd na digonolrwydd y cynnwys. Ni ddylai'r darllenydd ddefnyddio'r wybodaeth i wneud penderfyniadau a dylid derbyn cyngor annibynnol. Mae'r canllawiau yn cyfeirio at wefannau trydydd parti na ellir gwarantu cywirdeb y cynnwys ar eu cyfer.


**Cyflwyniad**

Efallai eich bod wedi canfod plâu neu bathogenau neu wedi clywed am fygythiad y gallai un o'r rhain gyrraedd eich cnwd. Ble fyddech chi'n chwilio am wybodaeth?

Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael. Yma byddwn yn dangos i chi sut y gallwch gael cefndir cyffredinol ar y pla neu'r clefyd, ble i ganfod gwybodaeth bellach neu sut y gallwch wneud ymholiadau am y ddeddfwriaeth yn ymwneud â symud planhigion a bioddiogelwch, a pha blâu a phathogenau sy'n hysbysadwy. Gallwch hefyd ddod o hyd i adnoddau i ddysgu am reoli plâu a chlefydau.

Mae'r nodyn canllaw hwn yn eich cyfeirio at ddetholiad o adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol wrth i chi ddatblygu eich gwybodaeth am faterion iechyd planhigion. Cofiwch nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac mae digon o ffynonellau gwybodaeth gwerthfawr eraill ar gael.

**Siart lif ar gasglu gwybodaeth am Blâu a Chlefydau (P&D)**




Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
GARDDWRIAETH HORTICULTURE

**Eisiau gwybod am risg pla neu glefyd i rywogaeth o blanhigion?**

Mae Defra yn cynnal y Gofrestr Risg Iechyd Planhigion. Er mwyn defnyddio'r gofrestr, gallwch fewnbynnu enw gwyddonol neu gyffredin i chwilio am blâu, pathogenau a chlefydau. Mae'r canlyniadau'n nodi lefel y risg a'r effaith y gall y pla neu'r pathogen ei chael ar gnydau neu goed yn y DU.

**Adnabod yr organeb achosol**

Mae llyfrau fel arfer yn lle da i ddechrau, gan y gallwch bori'r tudalennau i ddod o hyd i blâu a chlefydau. Mae rhai llyfrau yn defnyddio allwedd adnabod sy'n arbennig o ddefnyddiol er mwyn canfod enw'r pla neu'r clefyd yr ydych yn chwilio amdano. Mae'r llyfrau hyn hefyd yn nodi anhwylderau ffisiolegol ar blanhigion a allai edrych fel clefyd ond sy'n cael eu hachosi gan ffactorau eraill.

Royal Horticultural Society Pests and Diseases gan Pippa Greenwood ac Andrew Halstead (2018), cyhoeddwyd gan Dorling Kindersely

Pests, diseases and disorders of garden plants, 4ydd arg., gan Stefan Buczacki a Keith Harris (2014), cyhoeddwyd gan HarperCollins

Mae AHDB hefyd yn cyhoeddi Gwyddoniadur Plâu a Gelynion Naturiol y gellir ei lawrlwytho yma: Encyclopaedia of pests and natural enemies | AHDB

Mae gan yr RHS dudalennau gwe ar gyfer y plâu a'r clefydau mwyaf cyffredin a geir mewn planhigion gardd. Er eu bod wedi'u bwriadu ar gyfer garddwyr, gallant fod yn ddefnyddiol i'r tyfwr o ran darparu gwybodaeth gefndirol. Mae pob tudalen yn disgrifio beth yw'r pla neu glefyd, symptomau, sut i'w rheoli mewn sefyllfaoedd gardd a bioleg yr organebau.

Mae'r canllawiau Crop Walkers Guides yn ddefnyddiol iawn ar gyfer tyfwyr. Mae'r rhain ar gyfer cnydau penodol e.e. stoc meithrinfa gwydn, ac yn darparu ffotograffau a disgrifiadau o blâu a chlefydau.

Os hoffech bori delweddau o ddifrod plâu neu glefyd ar gnwd penodol, mae'r casgliad ffotograffig yn https://www.ipmimages.org/ yn ddefnyddiol iawn. Noder fod llawer o'r lluniau wedi cael eu tynnu yng Ngogledd America, ac efallai na fydd rhai plâu a chlefydau yn bresennol yng Nghymru.

Mae rhybuddion clefydau planhigion a thaflenni ffeithiau yn cael eu cyhoeddi gan y cylchgrawn masnach Horticulture Week ar ffurf gwasanaeth tanysgrifio https://www.hortweek.com/plant-health-alerts

Ar gyfer plâu a chlefydau ledled y byd, cyhoeddodd CABI y canllaw Plantwise Diagnostic Field Guide, ynghyd â rhybuddion plâu a chlefydau.

**Darganfyddwch o ble mae'r pla neu'r clefyd yn dod a sut mae'n cael ei ledaenu.**

Fel y nodwyd uchod, mae Defra yn cynnal y Gofrestr Risg Iechyd Planhigion. Gallwch fewnbynnu enw gwyddonol neu gyffredin i chwilio am blâu, pathogenau a chlefydau. Os bydd Dadansoddiad Risg Plâu (PRA) wedi cael ei greu, bydd hyn yn dangos yn y chwiliad. Mae'r Dadansoddiad Risg Plâu yn cynnwys gwybodaeth am y math o organeb, math o letywr, dosbarthiad, llwybrau haint, risgiau ac effeithiau ac opsiynau o ran rheolaeth a rheoli, ynghyd â chyfeiriadau at ymchwil ategol.

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
GARDDWRIAETH HORTICULTURE

**Taflen Ffeithiau Plâu a Chlefydau a Rhybuddion Plâu a Chlefydau Defra**

Ar y tudalennau hyn (isod), mae Taflenni Ffeithiau ar blâu a chlefydau hysbysadwy (cwarantîn) y DU a rhai plâu nad ydynt yn hysbysadwy (heb fod angen cwarantîn). Maent yn rhoi gwybodaeth am ddosbarthiad daearyddol, planhigion lletyol, trosglwyddiad, symptomau a chyngor ar reolaeth.

https://planthealthportal.defra.gov.uk/pests-and-diseases/pest-and-disease-factsheets/

https://planthealthportal.defra.gov.uk/pests-and-diseases/pest-and-disease-alerts/

Ar gyfer plâu a chlefydau coed, a deddfwriaeth, mae Forest Research yn ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy. Mae'r wefan yn cynnwys taflenni ffeithiau cynhwysfawr ar ddetholiad o blâu a chlefydau coed gan roi dosbarthiad daearyddol a tharddiad, planhigion lletyol, trosglwyddiad, symptomau, cyngor ar reoli, a dolenni i waith ymchwil pellach ac i'r gwasanaeth Diagnostig Iechyd Coed a'r Gwasanaeth Cynghori.

Adnoddau plâu a chlefydau - Forest Research

**Deddfwriaeth**

Er mwyn sicrhau lefel dda o fioddiogelwch yng Nghymru, mae symudiad planhigion a rheoli plâu a phathogennau yn gysylltiedig â deddfwriaeth. Mae llawer o'r ddeddfwriaeth hon yn ymwneud ag organebau penodol. Mae'n rhaid i fusnesau gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Felly, os ydych wedi nodi problem iechyd planhigion, neu os ydych chi'n gwerthu planhigion penodol, yn enwedig planhigion "blaenoriaeth uchel", mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'r rheoliadau a'r deddfau.

Mae storfa wybodaeth ganolog Defra, sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd, ar y Porth Gwybodaeth Iechyd Planhigion UK Plant Health Information Portal - UK Plant Health Information Portal.

Gellir dod o hyd i reolaethau iechyd planhigion, mewnforion ac allforion, cynlluniau ardystio, pasbortau planhigion a phlâu planhigion cwarantîn rhestredig yma Plant Health controls - GOV.UK.https://www.gov.uk/guidance/plant-health-controls

Rhoddir enghreifftiau o wybodaeth am blâu a phathogenau unigol ar y Porth Gwybodaeth Iechyd Planhigion ar gyfer Organebau Cwarantîn o dan reolaeth statudol. Mae'r tudalennau hynny'n rhoi ffotograffau o symptomau ac yn rhestru ffynonellau gwybodaeth pellach. Mae'r organebau ar y dudalen hon yn ddarostyngedig i reoliadau cwarantîn llym.

https://planthealthportal.defra.gov.uk/pests-and-diseases/high-profile-pests-and-diseases/

**Atal pla neu glefyd rhag cyrraedd cnwd**

Mae mesurau bioddiogelwch ac arferion hylendid da yn ffyrdd y gellir cyfyngu ar ledaeniad pla neu glefyd.

Gosodwyd polisi Bioddiogelwch Planhigion ar gyfer y DU yn y strategaeth ganlynol: "Protecting Plant Health: A Plant Biosecurity Strategy for Great Britain", a gellir dod o hyd iddi yma: Plant Biosecurity Strategy - UK Plant Health Information Portal.

Mae rhagolygon plâu a chlefydau yn seiliedig ar ddata tywydd yn cael eu defnyddio'n helaeth ac mae nifer o adnoddau ac apiau ar gael. Gall y rhain fod yn rhan o ddulliau Rheoli Plâu Integredig i leihau'r defnydd o blaladdwyr.

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
GARDDWRIAETH HORTICULTURE

**A oes angen i chi roi gwybod am y pla neu'r clefyd?**

Mae rhai plâu a chlefydau yn hysbysadwy. Mae'r rhain yn blâu cwarantîn. Rhoddir gwybodaeth am blâu a chlefydau hysbysadwy ar Borth Gwybodaeth Iechyd Planhigion y DU https://planthealthportal.defra.gov.uk/pests-and-diseases/pest-and-disease- factsheets/notifiable-pests/

I gael gwybodaeth am sut i roi gwybod am blâu hysbysadwy, gweler yr wybodaeth ar:

https://planthealthportal.defra.gov.uk/pests-and-diseases/reporting-a-pestdisease/.

Yng Nghymru, dylech gysylltu â'ch Arolygydd APHA.

Mae nifer o blâu a chlefydau nad ydynt yn hysbysadwy. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn cadw golwg ar amlder ac achosion plâu a chlefydau. Felly, os ydych chi'n dod o hyd i rywbeth, gallwch roi gwybod amdano'n wirfoddol a chael cymorth i lunio diagnosis. Bydd yr adroddiadau hyn yn helpu bioddiogelwch yng Nghymru.

Gellir adrodd am blâu a chlefydau coed trwy TreeAlert https://www.forestresearch.gov.uk/tools-and-resources/fthr/tree-alert/ neu ObservaTree https://www.observatree.org.uk/tree-health/report-a-tree-pest-or-disease/

Mae'r Rhwydwaith Sentinel Planhigion Rhyngwladol yn casglu adroddiadau ar blâu a chlefydau o bob cwr o'r byd, yn enwedig o erddi coed a gerddi botaneg. Maent yn darparu adnoddau ar sut i gofnodi amodau planhigion sy'n ffordd ddefnyddiol o ddysgu sut i ddisgrifio symptomau. https://plantsentinel.org/resources/

Yn ddiweddar, mae Cymru wedi sefydlu rhwydwaith sentinel o barciau a gerddi lle bydd APHA yn cynnal archwiliadau rheolaidd i archwilio achosion o blâu a chlefydau – sef Rhwydwaith Safleoedd Sentinel Iechyd Planhigion Cymru.

**Sut mae rheoli lledaeniad plâu a chlefydau?**

Darperir rhestr o ffynonellau gwybodaeth ar gyfer iechyd planhigion mewn garddwriaeth, diagnosis, rheoli a deddfwriaeth gan Ganolfan Iechyd Planhigion yr Alban https://www.planthealthcentre.scot/knowledge-bank/horticulture/resources

Mae gan AHDB Lyfrgell Wybodaeth chwiliadwy lle gallwch fewnbynnu enw clefyd, ac os yw'n cael ei restru, bydd gwybodaeth ar gael am y clefyd a'r dulliau o'i reoli https://ahdb.org.uk/knowledge-library

Yn aml iawn, mae angen cymwysterau a chofrestriad i ddefnyddio plaladdwyr. Mae rhai enghreifftiau o'r cyrsiau hyfforddi sydd ar gael i'w gweld ar wefan NPTC.

https://www.nptc.org.uk/qualificationschemes.aspx?id=2

Nod y cynlluniau BASIS, gan gynnwys y Gofrestr Broffesiynol, yw diweddaru eich gwybodaeth ynglŷn â gwasgaru plaladdwyr.

https://basis-reg.co.uk/schemes

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
GARDDWRIAETH HORTICULTURE

Mae gan Gyngor Cynhyrchu Cnydau Prydain (BCPC) wasanaeth tanysgrifio ar gyfer ei Ganllaw Plaladdwyr ar-lein yn y DU sy'n rhoi gwybodaeth am fwy na 1300 o blaladdwyr a'u defnydd.

Canllaw Plaladdwyr y DU

Mae Canllaw Plaladdwyr y DU 2021 hefyd ar gael fel llyfr.

Fodd bynnag, rydym i gyd yn ymwybodol erbyn hyn nad yw rheolaeth yn dibynnu ar driniaethau cemegol yn unig, ac mae amrywiaeth o ddulliau eraill ar gael, gan gynnwys hylendid a glanweithdra, Rheoli Plâu Integredig (IPM) a bioreolaeth.

**Dod yn arbenigwr**

Unwaith y byddwch wedi dod yn gyfarwydd â'r diagnosis a'r ddeddfwriaeth, efallai yr hoffech ymchwilio i blâu neu glefydau penodol yn fwy trylwyr. Gallwch ddarllen y llenyddiaeth wyddonol ddiweddaraf a fydd yn ddefnyddiol wrth lunio strategaethau rheoli. Mae sawl ffordd y gallwch ddod o hyd i'r gwaith ymchwil hwn.

Ar gyfer dod o hyd i gyhoeddiadau ymchwil wyddonol ar blâu, pathogenau neu glefydau, mae sawl gwasanaeth sy'n darparu swyddogaethau chwilio a chrynodebau. Un o'r gwasanaethau mwyaf hygyrch yw Google Scholar, lle gellir chwilio am awduron neu blâu, pathogenau neu glefydau, ac o fewn amserlenni o ddewis y defnyddiwr. Mae dolenni i'r erthyglau llawn ar gael ar gyfer rhai papurau.

https://scholar.google.co.uk/

Mae CABI yn cynnig gwasanaeth tanysgrifio ar gyfer chwiliadau am gyfeiriadau yn y gwyddorau bywyd cymhwysol.

https://www.cabdirect.org/

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

FARMING connect cyswllt FFERMIO
GARDDWRIAETH HORTICULTURE